Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

Darparu eitemau cyfarpar diogelu personol: hyd at 26 Gorffennaf 2020

Diweddariad gwybodaeth rheoli ar eitemau cyfarpar diogelu personol (PPE) sydd wedi'u darparu yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19) hyd at 26 Gorffennaf 2020.

Cyhoeddwyd gyntaf: 30 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 30 Gorffennaf 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-gorffennaf-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

1. Ffigurau penawdau cenedlaethol

2. Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

3. Manylion cyswllt

1. Ffigurau penawdau cenedlaethol

Mae'r ystadegau hyn yn dangos y nifer diweddaraf o eitemau PPE sydd wedi'u darparu i'r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Prif ganlyniadau

- Ers 9 Mawrth 2020, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) wedi darparu dros 242 miliwn o eitemau o PPE i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Darparwyd 109 miliwn o'r rhain i'r sector gofal cymdeithasol.
- Yn y saith diwrnod hyd at ddydd Sul 26 Gorffennaf 2020, darparwyd ychydig dan 15 miliwn o eitemau.

Tabl 1: Nifer yr eitemau PPE a ddarparwyd, hyd at 26 Gorffennaf 2020

Eitem	Ers 9 Mawrth 2020	Yn y saith diwrnod hyd at 26 Gorffennaf 2020
Ffedogau	45,637,075	2,054,075
Bagiau cyrff	7,669	6

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-gorffennaf-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Eitem	Ers 9 Mawrth 2020	Yn y saith diwrnod hyd at 26 Gorffennaf 2020
Cyfarpar amddiffyn llygaid	1,602,539	1,400
Masgiau Math I a Masgiau Math II	454,100	4,000
Masgiau Math IIR	66,667,446	3,390,850
Masgiau FFP2	75,230	3,600
Masgiau FFP3	1,444,087	67,425
Feisorau wyneb	2,116,901	29,495
Gosod citiau profi a darnau sbâr	4,642	57
Menyg	119,453,600	9,029,850
Menyg â chyffiau	970,400	8,650
Gynau (gwrth-hylif)	932,372	14,447
Gynau (arall)	194,308	11,723
Hylif diheintio dwylo	180,894	5,805
Clytiau diheintio dwylo	2,858,450	143,950
Hidlyddion anadlyddion	22,176	0

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-gorffennaf-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Eitem	Ers 9 Mawrth 2020	Yn y saith diwrnod hyd at 26 Gorffennaf 2020
Cyflau anadlyddion	99	0
Cyfanswm	242,621,988	14,765,333

Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Mae'r ffigurau a nodir ar gyfer eitemau PPE wedi'u seilio ar unedau unigol, ac eithrio:

- menyg: caiff uned ei nodi ar sail maint uned pecyn
- hylif diheintio dwylo: potel yw'r uned ni waeth beth fo'r maint

Mae Hidlyddion Anadlyddion a Chyflau Anadlyddion wedi'u hychwanegu at y rhestr hon o gyfarpar diogelu personol a ddosberthir fel rhan o'r ymateb i'r pandemig.

2. Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gwybodaeth rheoli yw'r data hyn a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP). Mae NWSSP yn caffael ac yn dosbarthu PPE ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Rydym yn cyhoeddi hyn er mwyn rhoi crynodeb wythnosol o eitemau PPE a ddarparwyd tra mae'n dal i fod yn berthnasol i'r ymateb i'r pandemig coronafeirws (COVID-19). Nid yw'r data hyn wedi mynd drwy'r un lefel o sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol a gellid diwygio'r data yn y dyfodol.

Dim ond stoc o NWSSP y mae'r data yn ei gynnwys ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw stoc y mae'r GIG neu awdurdodau lleol wedi'i gaffael yn uniongyrchol. Bydd y data yn cynnwys PPE wedi'i gaffael yn uniongyrchol gan NWSSP yn ogystal â PPE a ddosbarthwyd i NWSSP gan Lywodraeth y DU. Mae'n cynnig ciplun o'r sefyllfa ar adeg benodol wrth i'r sefyllfa honno newid.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-gorffennaf-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys eitemau PPE a ddarparwyd ers 9 Mawrth 2020 gan mai dyma pryd y sefydlwyd y trefniadau adrodd presennol.

Mae'r data yn y datganiad hwn yn gywir am 8pm ar 26 Gorffennaf 2020.

Statws Ystadegau Gwladol

Nid yw'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol. Fodd bynnag, cyn bell ag sy'n bosib, maent wedi'u casglu a dilysu yn unol â'r pileri a'r egwyddorion yn y **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.** Rydym yn parhau i ddatblygu'r broses o gasglu data a sicrhau ansawdd er mwyn gwella'r data.

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn gyflym mewn ymateb i ddigwyddiadau'r sy'n datblygu dros y byd.

Deddf Llesaint Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru. Hynny yw, Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn hefyd rhoi naratif ategol i'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-gorffennaf-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

Diweddariad nesaf

Datganiad ystadegol wythnosol yw hwn ar hyn o bryd. Bydd yn cael ei gyhoeddi am 09:30yb bob dydd Iau. Byddwn yn adolygu hyn yn unol ag anghenion newidiol y defnyddwyr.

Bydd y datganiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ddydd Iau 4 Awst.

Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at **kas.covid19@llyw.cymru**

3. Manylion cyswllt

Ystadegydd: Abi Woodham
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **kas.covid19@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 99/2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-gorffennaf-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Darparu eitemau cyfarpar diogelu personol: hyd at 26 Gorffennaf 2020** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-gorffennaf-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-gorffennaf-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.